# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitemau 10 &12)<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 9)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) (ar gyfer eitemau 10 & 12)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD) (ar gyfer eitem 4)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Aled M. Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen, Shaun Redmond, Peter Rogers |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim i'w hadrodd.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith eu cadarnhau, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2018.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2018 fel rhai cywir.**

## 4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Gorffennaf 2018 a Chwefror 2019.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini bod dau newid i'r Flaen Raglen Waith ers y cyfnod adrodd diwethaf, sef –

- Eitem 16 - Mae Protocol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei ail-raglennu o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhelir ar 16 Gorffennaf, 2018 a bydd yn cael ei ystyried yn awr yn y cyfarfod ar 17 Medi, 2018.
- Eitem 28 – Mae Cyllideb 2019/20 yn newydd i'r Flaen Raglen Waith ac fe'i hystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod ar 18 Chwefror, 2019.

Yn ychwanegol at hyn, dywedodd y Rheolwr Sgriwtini y bydd angen trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith yn fuan er mwyn ystyried Bid Bargen Twf Gogledd Cymru.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Gorffennaf, 2018 i Chwefror, 2019 wedi ei diweddaru fel y'i cyflwynwyd.**

## 5 ADRODDIAD CYNNYDD AR Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu Cynllun Gwella'r Gwasanaeth.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol bod y Gwasanaeth, yn ystod y cyfnod ers arolygiad AGC o'r Gwasanaethau Plant wedi bod yn brysur yn sefydlu cyfres o newidiadau pwysig a fydd, fe dybir, yn darparu gwasanaethau a fydd yn cydymffurfio'n well â deddfwriaeth. Disgrifir y rhain yn yr adroddiad gyda phwyslais penodol ar ailstrwythuro'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar Ymyrraeth Gynnar ac Atal ac Ymyrraeth Ddwys; datblygu Strategaeth Atal gyda'r nod o leihau angen ar bob lefel; datblygu systemau a phrosesau ac ansawdd a chysondeb Ymarfer. Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn cyfarfod yn fisol ac wedi bod yn craffu yn ofalus y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y gwnaed llawer iawn o waith ar bob lefel o'r Gwasanaeth, mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae'r Gwasanaeth angen cyfnod yn awr i ganolbwyntio ar agweddau ymarferol Gwaith Cymdeithasol er mwyn bwrw ymlaen â chynlluniau; at ei gilydd, mae'r Gwasanaeth ar y trywydd iawn ac yn symud i'r cyfeiriad iawn.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y diweddariad ar gynnydd a gofynnodd am sicrwydd ynglŷn â'r pwyntiau canlynol -

• Nododd y Pwyllgor Gwaith y bu'n flaenoriaeth i'r Gwasanaeth ddatblygu Strategaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar a bod gweithredu'r strategaethau hyn yn arwain at welliannau. O'r herwydd, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ar effaith y gwaith hwn o ran nifer yr achosion lle cymerwyd camau ymyrraeth gynnar yn ystod y chwe mis diwethaf ac a oedd hynny wedi arwain at well canlyniadau i'r Gwasanaeth ac i blant a theuluoedd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, er bod nifer y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth wedi aros yn gyson, mae'r Gwasanaeth wedi medru ymateb mewn gwahanol ffyrdd yn dilyn cyfeiriad, e.e. drwy wneud defnydd cynyddol o ymatebion y Tîm o Amgylch y Teulu (TAT). Mae capasiti'r TAT wedi cael ei gynyddu o dri i chwe swyddog sydd, y cyfan ohonynt, â baich achosion llawn. Drwy ymyrryd yn y modd hwn, mae anghenion teuluoedd yr ystyrir eu bod yn fregus ac a fyddai fel arall yn cael sylw drwy'r system Gwaith Cymdeithasol, yn cael eu lleihau cyn iddynt ddod yn fwy difrifol. Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn hefyd wedi bod yn gweithio gyda phump o deuluoedd mewn modd rhagweithiol a hynny wedi arwain at ddelio gydag anghenion 8 o blant heb iddynt orfod mynd i mewn i'r system ofal. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn adolygu achosion a lle mae'n briodol, wedi bod yn rhyddhau Gorchmynion Gofal fel y gall plant ddychwelyd i fyw gyda'u teuluoedd heb gael eu rhoi mewn gofal.

• Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch a yw'r Gwasanaethau plant wedi gorfod ymyrryd ar fyr rybudd mewn achosion lle mae anghenion yn ddwys.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y gall ymyrraeth gymryd sawl ffurf ac y gall ddigwydd ar wahanol lefelau; mewn rhai achosion gall ymyrraeth gynnar gan y trydydd sector a gwasanaethau cyffredinol yn gweithio gyda theuluoedd yn gynnar iawn olygu nad yw'r plentyn yn dod i sylw Gwasanaethau Cymdeithasol o gwbl; mae'r Gwasanaeth wrthi'n adolygu'r modd y mae'n defnyddio adnoddau Teuluoedd yn Gyntaf a symud y rhain i sail tair blynedd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cryfhau ei gysylltiadau gydag ysgolion lle mae TAT yn rhan o'r ddarpariaeth gan olygu bod ymgysylltiad gyda theuluoedd yn digwydd yn llawer cynharach. Yn wyneb y gorwariant yn y Gwasanaethau Plant, dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig bod y Gwasanaeth hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar ochr ddwys y ddarpariaeth e.e. byddai'r 8 plentyn a fyddai fel arall wedi bod angen darpariaeth drwy'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Plant oni bai am fewnbwn y Tîm Teuluoedd Gwydn wedi rhoi pwysau sylweddol ar y gyllideb.

• Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn weinyddol, wedi symud i system newydd, sef System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ac y cafwyd rhai problemau cychwynnol gyda'r system yn enwedig o ran prosesau llif gwaith. Mae'r problemau hyn wedi cael sylw gyda chymorth allanol. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am esboniad ynghylch a yw'r mewnbwn hwn wedi bod yn ddefnyddiol ac a yw'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn fodlon bod y system yn awr yn ymateb i'w hanghenion.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod bwrdd wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y system yn cwrdd ag anghenion y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod blaenoriaeth yn cael ei rhoddi i'r Gwasanaethau Plant a

Theuluoedd ac yn enwedig felly'r strwythurau yn y Gwasanaeth. I'r perwyl hwn, mae'r Gwasanaeth wedi cael ei rhannu'n bedair adain gyda'r ffocws cychwynnol ar Deuluoedd yn Gyntaf a Theulu Môn. Cafwyd sgyrsiau gyda staff i sefydlu pa agweddau o'r system y mae angen eu hegluro ac/neu eu haddasu ac mae'r newidiadau a wnaed o ganlyniad yn yr ail wythnos o'u gweithrediad. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn y drydedd wythnos o'r cam nesaf o adolygu'r system o bersbectif yr ail adran sy'n ymwneud â Diogelu Plant a phlant sy'n mynd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac sy'n cael eu tynnu oddi arni. Mae'r gwaith felly'n mynd rhagddo yn gyflym gyda hyfforddiant lefel uchel yn cael ei gynnig i'r staff fel rhan o'r gweithdai yn ogystal â chamau i reoli'n well y problemau gyda'r system fel bod y problemau a gaiff aelodau unigol o staff yn cael eu hamlygu a hyfforddiant un i un yn cael ei ddarparu. Wedi bod yn rhan o'r newidiadau, mae'r staff yn awr mewn gwell sefyllfa i ddeall y system a sut y gall weithio iddyn nhw. Mae'n sefyllfa sy'n gwella ac mae sgôp i wella'r system ymhellach wrth i'r Gwasanaeth wneud cynnydd gyda'r adrannau gweddilliol.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda'r canlynol -**

- **Y camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu Cynllun Gwella'r Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd.**
- **Cyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

## 6 ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 4, 2017/18

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol a Thrawsnewid) yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer chwarter olaf blwyddyn ariannol 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd unrhyw bethau annisgwyl ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r rhan fwyaf o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Cafwyd heriau yn y Gwasanaeth Dysgu; y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion lle yr oedd rhai meysydd yn tanberfformio fel y nodwyd yn yr adroddiad. Mae camau lliniaru, a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r rhain. Ar y llaw arall, mae datblygiadau newydd cyffrous yn digwydd yn y Gwasanaethau Oedolion a disgwylir i'r rheiny arwain at welliannau; mae'r rhain yn ymwneud â dyfarnu Contract Gofal Cartref newydd a diwygiedig; cynyddu capasiti yn Garreglwyd i gymryd unigolion a chanddynt broblemau dementia a datblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol Hafan Cefni.

Mewn perthynas â Rheoli Pobl, dywedodd yr Aelod Portffolio er bod y canlyniadau ar ddiwedd y flwyddyn o ran salwch wedi methu'r targed corfforaethol oherwydd cynnydd mewn absenoldebau salwch yn Chwarter 4 – sefyllfa a oedd yn gyffredin ar lefel genedlaethol - mae perfformiad yn parhau i fod yn Felyn ar y Cerdyn Sgorio oherwydd bod y cyfraddau yn Chwarteri 1, 2 a 3 of 2017/18 wedi bod ar y blaen i'r targed a'r gorau mewn tair blynedd. Mae'r gostyngiad yn nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd o fewn yr amserlen (73% o gymharu â 78% yn 2016/17) yn siomedig ac i'w briodoli i'r perfformiad gwael yn Chwarter 1 sydd wedi cael effaith ar y perfformiad cronnol ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae cyfanswm y

Cyfweliadau Dychwelyd i’r Gwaith a gynhaliwyd (o fewn yr amserlen a’r tu allan i amserlen) yn 85% sydd ymhell islaw’r targed o 95%.

Mae’r perfformiad yn erbyn y DP Gwasanaeth Cwsmer wedi gwella gyda chynnydd nodedig yn y defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu gyda’r Cyngor. Mae perfformiad o ran ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen yn 78% sy’n welliant o gymharu â’r 77% yn 2016/17 yn arbennig felly o ystyried y cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd - 7,527 yn 2017/18 o gymharu â 5,700 yn 2016/17.

Dywedodd yr Aelod Portffolio fod rhaid cynnal y momentwm o welliant parhaus ar draws y Cyngor ac y gellir gwneud hyn wrth i’r holl wasanaethau weithio gyda’i gilydd i roi sylw i’r meysydd hynny ble mae tanberfformiad.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

• Nododd y Pwyllgor Gwaith y dirywiad mewn perfformiad o ran cynnal Cyfweliadau Dychwelyd i’r Gwaith. Oherwydd eu bod yn declyn rheoli pwysig i reoli absenoldeb salwch, nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach y dylid gwneud ymdrech o’r newydd i wella nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i’r Gwaith a gynhelir er mwyn codi perfformiad yn agosach at y lefel darged.

Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) fod y ffigyrau diweddaraf ar gyfer mis cyntaf 2018/19 yn dangos fod perfformiad o ran cynnal Cyfweliadau Dychwelyd i’r Gwaith yn 87% sy’n welliant sylweddol ac yn cadarnhau'r hyn a ddywedodd wrth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gynharach yn y mis, sef bod Penaethiaid Gwasanaeth yn canolbwyntio ar fonitro Cyfweliadau Dychwelyd i’r Gwaith a gwella a chynnal perfformiad o ran cynyddu nifer y cyfweliadau a gynhelir.

• Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y perfformiad yn erbyn DP WMT/009b (% y gwastraff a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol a’i baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio ac/neu ei ailgylchu) wedi gwella eto eleni i 72.2% gan godi’r Awdurdod i’r safle cyntaf yng Nghymru ar gyfer y mesur perfformiad hwn. Nododd y Pwyllgor Gwaith fod sgôp hefyd i’r Awdurdod adeiladu ar ei ymrwymiad i leihau gwastraff plastig drwy arwain ar, a gosod esiampl drwy weithio tuag at wneud i ffwrdd â phlastigau a ddefnyddir unwaith yn unig.

• Nododd y Pwyllgor Gwaith fod tanberfformiad yn erbyn rhai o Ddangosyddion Perfformiad y Gwasanaeth Dysgu yn derbyn sylw drwy’r mesurau adferol penodol a amlinellwyd yn yr adroddiad; mae gwaith monitro a gwella yn mynd rhagddo hefyd drwy’r Byrddau Trawsnewid Addysg a Safonau Addysg ynghyd â’r Panel Adolygu Perfformiad Ysgolion.

• Nododd y Pwyllgor Gwaith fod 71 o gwynion wedi dod i law ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â 9 o gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y cyfan o’r cwynion wedi derbyn ymateb gydag 18 ohonynt wedi cael eu cadarnhau yn llawn, 5 yn rhannol a’r 48 arall wedi cael eu gwrthod. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch a yw gwasanaethau’n dadansoddi sylwedd y cwynion er mwyn dysgu ohonynt a nodi gwelliannau posibl.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) fod gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar gwynion fel ffynhonnell o wybodaeth am wasanaethau a all arwain at welliannau; mae'r Panel Gwella Gofal Cwsmer hefyd yn gweithio ar sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau o ran canmoliaethau a chwynion.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio am Chwarter 4 2017/18 a nodi ei gynnwys.**
- **Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y cânt eu nodi yn adran 1.4 yr adroddiad.**
- **Derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad.**

**7 DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2018/19**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) yn cynnwys y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2018/19.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol bod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol dros y 12 mis nesaf a bod hynny â chyswllt â'r dyheadau a'r amcanion a nodir yng Nghynllun y Cyngor Sir ar gyfer 2017-22.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y Ddogfen Gyflawni Flynyddol a bod ei gweledigaeth a'i chynnwys yn dangos bod yr Awdurdod yn Gyngor blaengar, egnïol sy'n ymrwymedig i fuddsoddi yn, a gwella ei wasanaethau mewn modd arloesol. Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith bawb – yn Aelodau a Swyddogion – a oedd wedi cyfrannu at gynhyrchu'r ddogfen uchelgeisiol hon.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cynnal y 'status quo' yn ystod y cyfnod hwn o lymder yn opsiwn ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor drawsnewid er mwyn gwasanaethu trigolion Ynys Môn yn y ffordd orau bosibl. Mae'r Ddogfen Gyflawni'n dangos fod y Cyngor yn barod i fynd i'r afael â'r her hon wrth iddo foderneiddio ei wasanaethau.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol am 2018/19.**
- **Rhoi'r hawl i'r Swyddogion drwy law'r Aelod Portffolio i ymgymryd â'r dasg o orffen drafft terfynol y Ddogfen Gyflawni am 2018/19 ac argymell ei bod yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf, 2018.**
- **Cadarnhau bod modd gwireddu'r ddogfen fel cynllun sydd yn cydnabod y meysydd hynny o waith sydd wedi'i amserlennu ar gyfer y flwyddyn gyfredol o dan flaenoriaethau Cynllun y Cyngor.**

**8 ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2017/18**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Cyngor ym mis Chwefror, 2017, wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf o £30.614m am 2017/18 ar gyfer gwasanaethau nad oeddynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £9.889m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Mae’r tabl ym mharagraff 1.3 yr adroddiad yn rhoi manylion am y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 ynghyd â’r ymrwymiadau a ddygwyd ymlaen o 2016/17. Y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol oedd £39.800m a dim ond £20.064m oedd wedi ei wario ar 31 Mawrth, 2018 sy’n cyfateb i 50% o’r gyllideb. Y prif reswm am y tanwariant cyffredinol oedd y tanwariant mawr yn erbyn y saith prosiect mawr a restrwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad. Bydd cyfan o’r cynlluniau cyfalaf hyn yn cario drosodd i 2018/19 ynghyd â’r cyllid ar eu cyfer.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 nad oedd unrhyw gyllid wedi cael ei golli oherwydd llithriad a bod yr arian yr oedd angen i’r Cyngor ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol wedi cael ei wario.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi sefyllfa alldro ddrafft Rhaglen Gyfalaf 2017/18 yn amodol ar archwiliad, a**
- **Chymeradwyo cario £9.348m drosodd i 2018/19 ar gyfer tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei gario drosodd i 2018/19.**

## 9 MODERNEIDDIO YSGOLION AR YNYS MÔN –SYMUD DYDDIAD GWEITHREDU'R RHYBUDDION STATUDOL AR GYFER YSGOL SANTES DWYNWEN, YSGOL PARC Y BONT AC YSGOL BRYNSIENCYN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ohirio dyddiadau gweithredu’r rhybudd statudol i gwblhau Ysgol Santes Dwynwen a’r rhybudd statudol i newid statws Ysgol Parc y Bont i 1 Ebrill 2019.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a’r Gwasanaethau Ieuenctid bod yr Awdurdod ac Esgobaeth Bangor (Yr Eglwys yng Nghymru), ar 17 Mehefin 2016, wedi cyhoeddi dau rybudd statudol o’u bwriad i (1) gyfuno Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Llangaffo ac Ysgol Niwbwrch yn ysgol newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ar safle yn Niwbwrch, a (2) i beidio â chefnogi Ysgol Parc y Bont fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru, i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i’w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer bechgyn a genethod 3-11 oed ac i ffederaleiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall. Roedd y cynigion hyn i gael eu gweithredu ar 1 Medi, 2018. Fodd bynnag, oherwydd y ffactorau a nodir yn yr adroddiad, sef materion yn ymwneud â phrynu’r tir a phrosesau caniatâd cynllunio’n cymryd mwy o amser na’r disgwyl ac yna’r oedi cyn yr Etholiad Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017 ac yna’r Etholiad cyffredinol ym mis Mehefin 2017, bu’n rhaid gwthio dyddiad cychwyn y ddau gynnig yn ôl ac o’r herwydd, gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith ystyried cymeradwyo ymestyn yr amserlen am gyfnod o 8 mis hyd at 1 Ebrill, 2019. Fel yr un a gynigiodd y bwriad yn y rhybuddion statudol gwreiddiol, rhaid i’r Pwyllgor Gwaith ganiatáu unrhyw newidiadau i’r amserlen.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu mai 4 Mawrth 2019 yw'r dyddiad targed o hyd ar gyfer agor yr ysgol newydd.

Siaradodd y Cynghorydd Peter Rogers fel Aelod Lleol a dywedodd ei fod, er yn cefnogi'r ysgol newydd ac yn gweithio'n galed i sicrhau ei llwyddiant, yn siomedig gyda'r oedi ac yn arbennig y sgil-effeithiau posibl ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol newydd gyda rhai disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion y tu allan i'r ardal ac, yn fwy arwyddocaol, yr effaith bosib ar y rhagamcanion mewn perthynas â niferoedd disgyblion yn ysgol uwchradd y dalgylch, sef Llangefni, gyda hynny efallai'n cael effaith ar ariannu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Lleol am ei sylwadau a dywedodd ei bod hi a'r Pwyllgor gwaith yn rhannu ei ymrwymiad i wneud yr ysgol newydd yn llwyddiant ar gyfer yr ardal a phlant yr ardal. Roedd heriau ychwanegol wedi bod ynghlwm wrth yr ysgol ond fel y disgrifir yn yr adroddiad, roedd y rheiny'n anffodus y tu draw i reolaeth yr Awdurdod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg bod newid y status quo yn anorfod yn mynd i fod yn heriol. Fodd bynnag, mae profiadau'r gorffennol o agor ysgolion newydd wedi profi bod y negeseuon, ar ôl goresgyn yr heriau cychwynnol, wedi bod yn gadarnhaol.

**Penderfynwyd oedi gyda'r canlynol tan 1 Ebrill, 2019 –**

- **Dyddiad gweithredu cynnig (1) i gwblhau Ysgol Santes Dwynwen.**
- **Dyddiad gweithredu cynnig (2) i newid statws Ysgol Parc y Bont.**

## 10 STRATEGAETH DIGARTREFEDD RHANBARTHOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn amlinellu'r ymagwedd y bwriedir ei mabwysiadu ar gyfer datblygu Strategaeth Ddigartrefedd ddrafft ar sail ranbarthol ynghyd â'r cynllun cyfathrebu arfaethedig.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau bod raid i awdurdodau lleol, yn unol â'r gyfraith, fabwysiadu Strategaeth Ddigartrefedd yn 2018 er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn yr adroddiad. Mae Penaethiaid Gwasanaeth Gogledd Cymru wedi cytuno y bydd Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol yn cael ei chynhyrchu yn seiliedig ar y farn y byddai sefydlu dealltwriaeth ac ymagwedd ranbarthol ar y cyd tuag at atal digartrefedd yn dod â'r manteision penodol a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad. Amlinellir yn yr adroddiad y modd y bydd bwriedir cyfathrebu gyda phartneriaid ynghylch datblygiad y cynllun gweithredu.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd y Strategaeth yng nghyd-destun adroddiadau cynyddol yn y cyfryngau ynghylch cynnydd mewn lefelau digartrefedd, yn arbennig ymysg pobl ifanc. Nododd y Pwyllgor Gwaith ei bod yn iawn i'r Awdurdod ystyried dulliau newydd a rhagweithiol o fynd i'r afael â'r mater hwn a gwneud y mwyaf o'r holl gyfleoedd gyda phartneriaid i gefnogi'r sawl sydd wedi eu heffeithio ac i ddatblygu datrysiadau ar gyfer achosion sylfaenol digartrefedd.

**Penderfynwyd cymeradwyo –**

- **Y dull o ddatblygu'r Strategaeth Ranbarthol gyda phwyslais ar ganlyniad wrth ddatblygu'r cynllun gwaith ar lefel rhanbarthol a lleol (Rhan 2 a 3 o'r adroddiad)**
- **Y dull o gyfathrebu wrth ddatblygu'r cynllun gwaith gyda phartneriaid sydd yn arwain at gyfnod ymgynghori a chymeradwyaeth terfynol.**

**11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei datgelu a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohono yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**12 RHAGLEN AILSEFYDLU FFOADURIAID O SYRIA**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn amlinellu'r cam nesaf o'r Rhaglen ar gyfer Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria. Yn yr adroddiad, amlinellwyd yr hyn a oedd wedi ei gyflawni dan y Rhaglen Ailsefydlu hyd yma o ran y tri theulu cyntaf i gael eu hailsefydlu ynghyd â'r ystyriaethau mewn perthynas ag ailsefydlu'r teuluoedd nesaf y bydd yr Awdurdod yn eu croesawu fel rhan o'r rhaglen.

**Penderfynwyd –**

- **Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn rhoi diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â'r rhaglen hon i'r Aelod Portffolio ar sail anffurfiol ac ni fydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith oni bai bod raid gwneud penderfyniadau ynghylch polisi neu gyllid neu mewn amgylchiadau lle mae'r Pennaeth Gwasanaeth a/neu'r Aelod Portffolio yn gofyn am i adroddiad/ penderfyniad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.**
- **Fel rhan o'r rhaglen, bydd y 4ydd, 5ed a'r 6ed teulu yn cael eu hail-sefydlu mewn ardaloedd yn seiliedig ar y ffactorau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**